



### **Hysbysiad Preifatrwydd - Tai**

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth a gedwir amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau i chi.

#### **Sut Rydym yn Defnyddio Data Personol**

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae adran Atebion Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) yn cael, yn dal, yn defnyddio ac yn datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), y camau a gymerwn i sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu, ac hefyd mae'n disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion o ran eu data personol sy'n cael ei drin gan BCBC.

Mae defnyddio a datgelu data personol yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth Diogelu Data. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i BCBC sicrhau ei fod yn trin yr holl ddata personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae BCBC yn cymryd y cyfrifoldeb hwnnw yn ddifrifol iawn ac yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn briodol er mwyn sicrhau a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i BCBC gael sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

#### **1. Pam rydym yn ymdrin â data personol**

Bydd Atebion Tai BCBC yn casglu, prosesu a storio gwybodaeth bersonol amdanoch chi ac aelodau eraill o'r cartref (pan fyddwch yn darparu gwybodaeth am aelodau'r cartref, rydym yn tybio eich bod chi'n gwneud hynny gyda'u gwybodaeth a'u cydsyniad llawn) er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau o dan y Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wrth gynnal asesiadau digartrefedd a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Tai 1996 wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i:

- Gynnal ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth
- Asesu anghenion tai unigolyn
- Gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd i gadarnhau cymhwysra am gymorth
- Rhoi'r cyngor mwyaf priodol am dai i gynnal tenantiaethau ac atal digartrefedd
- Gweithio gyda sefydliadau dibynadwy i ddod o hyd i lety addas
- Rhannu gwybodaeth gyda darparwyr Tai i sicrhau llety

#### **2. Pa fath o ddata personol yr ydym yn ei drin?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall BCBC gael, defnyddio a datgelu data personol gan gynnwys y canlynol:



## Bridgend County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- Manylion personol – enw, cyfeiriad, oedran, rhyw, rhif YG, rhifau ffôn, cyfeiriad e-bost
- Hanes cyfeiriadau blaenorol
- Statws mewnfudo
- Manylion y cartref – gwybodaeth yn ymwneud â'r teulu gan gynnwys holl
- ddata personol y cartref a fydd yn llunio'r cais am ddiartrefedd
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Manylion ariannol
- Unrhyw ddyled sy'n gysylltiedig â thenantiaeth
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Anghenion tai
- Delweddau gweledol, ymddygiad ac ymddangosiad personol
- Gwybodaeth ffeiliau achos
- Manylion/diagnosis meddygol
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Gwybodaeth am anableddau
- Dewis iaith
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol
- Math a maint y llety sydd ei angen (gan gynnwys unrhyw addasiadau angenrheidiol, nifer y gwllâu)
- Dewis ardaloedd tai a ffafir
- Manylion y landlord/darparwr morgais presennol
- Unrhyw wybodaeth arall yr ydym yn ei hystyried yn berthnasol i gyflawni'r Aseiad Tai

Bydd BCBC ond yn defnyddio data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol gan gynnwys ymgymryd ag aseiad digartrefedd ac anghenion, cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin, dyraniad Tai Cymdeithasol a dyrannu llety dros dro. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, mewn cofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig e.e. delweddau CCTV.

#### 4. **O ble rydym yn cael data personol?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall BCBC gael data personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Yn uniongyrchol gan y cleient sy'n ceisio cyngor a chymorth tai;
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith;
- Cyllid a Thollau EM
- Awdurdodau trwyddedu;
- Cynrychiolwyr cyfreithiol;
- Awdurdodau erlyn;
- Llysoedd;
- Carchardai;



- Sefydliadau sector gwirfoddol;
- Sefydliadau cymeradwy a phobl sy'n gweithio gyda'r Cyngor;
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau'r llywodraeth;
- Gwasanaethau argyfwng;
- Unigolion eu hunain;
- Perthnasoedd, gwarcheidwaid neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn;
- Cyflogwyr presennol, blaenorol neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn;
- Cyflogwyr presennol, blaenorol neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn;
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles;
- Sefydliadau addysg a hyfforddiant;
- Cynghorwyr proffesiynol;
- Gweithwyr ac asiantau BCBC;
- Cyflenwyr a darparwyr nwyddau neu wasanaethau;
- Pobl sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn;
- Sefydliadau a chynghorwyr ariannol;
- Ymgynghorwyr meddygol a Meddygon Teulu;
- Llywodraeth leol;
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusenol;
- Awdurdodau ombwdsmon a rheoleiddio;
- Y cyfryngau;
- Proseswyr Data sy'n gweithio ar ran BCBC;
- Gwasanaeth Prawf;
- Canolfannau Rhannu Aml-Asiantaeth Diogelu'r Cyhoedd;
- Gwybodaeth ar gael yn agored ar y rhyngwyd;
- Adrannau eraill o fewn y Cyngor

## **5. Gyda phwy rydyn ni'n datgelu data personol?**

Mae gan BCBC Gofrestr Tai Cyffredin, mae'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid i'r gofrestr yn cael mynediad awtomatig i'r canlynol, ond nid oes ganddynt fynediad at wybodaeth sensitif neu gyfyngedig.

- Asesiad tai/digartrefedd
- Nodiadau achos
- Cofrestru Tai

Weithiau mae angen i ni rannu gwybodaeth gyda'r unigolion yr ydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt a sefydliadau eraill. Lle mae hyn yn angenrheidiol, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Yr hyn sy'n dilyn yw disgrifiad o'r mathau o sefydliadau y gall fod angen i ni rannu peth o'r wybodaeth personol yr ydym yn ei brosesu â hwy am un rheswm neu fwy:

- Cwsmeriaid
- Teulu, cydweithwyr neu gynrychiolwyr yr unigolyn rydym yn prosesu data personol amdanynt
- Cyflogwyr presennol, blaenorol a darpar gyflogwyr
- Landlordiaid presennol, blaenorol a darpar gyflogwyr



- Sefydliadau gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Darparwyr nwyddau a gwasanaethau
  
- Sefydliadau ariannol
- Llywodraeth Cymru a'r llywodraeth ganolog
- Gwasanaethau ombwdsmon a rheoleiddio
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Llysoedd a thribiwnlysoedd
- Cyrff proffesiynol
- Sefydliadau arolwg ac ymchwil
- Lluoedd yr heddlu
- Cymdeithasau tai a landlordiaid
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusenol
- Proseswyr data
- Cyrff rheoleiddio
- Llysoedd, carchardai
- Llywodraeth leol a chanolog
- Asiantaethau a chyrff gorfodi'r gyfraith rhyngwladol
- Asiantaethau partner, sefydliadau cymeradwy ac unigolion sy'n gweithio gyda'r heddlu
- Awdurdodau trwyddedu
- Darparwyr gwasanaethau
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Cyflogwyr presennol, blaenorol a darpar gyflogwyr
- Awdurdodau erlyn a gorfodi'r gyfraith
- Archwilwyr
- Gwasanaethau Cyngor Eraill
- Darparwyr Tai
- Cwmnïau morgais
- Landlordiaid
- Darparwyr cymorth

## **6. Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'r wybodaeth hon?**

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, ni chaniateir i ni ddefnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol oni bai bod gennym reswm priodol a chyfreithlon dros wneud hynny. Y sail gyfreithlon i ni ddefnyddio'ch gwybodaeth yw bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth tai ac ymgymryd â'n dyletswyddau cyngor. Ar adegau penodol, efallai y byddwn yn gofyn am eich caniatâd penodol i ddefnyddio'ch gwybodaeth.

## **7. Sut rydym yn trin data personol?**

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1, bydd BCBC yn trin data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael ei drin yn deg a chyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym ni neu ar ein rhan o'r safon uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd, digonolrwydd a diffyg



gormodedd, yn cael ei gadw mor gyfoes ag sy'n ofynnol, wedi'i ddiogelu'n briodol, ac fe'i hadolygir, ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel pan na fydd ei angen bellach.

Byddwn bob amser yn ceisio cael eich caniatâd (h.y. cytundeb) inni brosesu eich gwybodaeth bersonol. Gofynnir i'n hymgeiswyr lofnodi ffurflen ganiatâd diogelu data pan fyddant yn gwneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin. Mae'r ffurflen ganiatâd yn nodi'r sefydliadau a'r math o sefydliadau y gallwn rannu eich gwybodaeth â hwy. Gellir tynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg.

## **8. Sut rydyn ni'n sicrhau diogelwch data personol?**

Mae BCBC yn ystyried yr holl ddata personol dan ein rheolaeth yn ddifrifol iawn. Byddwn yn sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol priodol yn eu lle, gan gynnwys monitro archwilio a chywirdeb, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth electronig a phapur rhag colli a chamddefnyddio data, a dim ond yn caniatáu mynediad atynt pan fo rheswm dilys i wneud hynny, ac yna dan ganllawiau llym ynghylch pa ddefnydd y gellir ei wneud o unrhyw ddata personol a gynhwysir ynddynt. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rheoli a'u gwella'n barhaus i sicrhau diogelwch cyfoes.

## **9. Am faint mae BCBC yn cadw data personol?**

Mae BCBC yn cadw data personol cyn belled ag y bo'n angenrheidiol at y diben neu'r dibenion penodol y mae'n cael ei ddal yn unol â Pholisi Diogelu Data y Cyngor. Cedwir gwybodaeth am gleient am saith mlynedd ar ôl derbyn dyletswydd tai.

## **10. Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol a gaiff ei drin gan BCBC?**

Mae gan unigolion hawliau amrywiol:

1. Yr hawl i gael gwybod
2. Yr hawl i fynediad
3. Yr hawl i gywiro
4. Yr hawl i ddileu
5. Yr hawl i gyfyngu prosesu
6. Yr hawl i gludadwyedd data
7. Yr hawl i wrthwynebu
8. Hawliau mewn perthynas â phenderfynu a phroffilio awtomataidd

(Yr hawl i gael gwybod)

Mae gennych chi hawl i gael gwybod am gasglu a defnyddio eich data personol.



Rhaid i'r Cyngor roi gwybodaeth i chi yn cynnwys: dibenion prosesu eich data personol, y cyfnodau cadw ar gyfer y data hwnnw, ac â phwy y caiff ei rannu. Gelwir hyn yn 'wybodaeth preifatrwydd'.

Mae gan unigolion amryw hawliau:

#### Hawl mynediad

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'ch data personol a gedwir gan y Cyngor.

Mae gennych hefyd hawl i gael cadarnhad a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael ei brosesu gan y Cyngor ai peidio. Os yw hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Y pwrpasau a'r sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod a ragwelir y bydd y data personol yn cael ei storio
- Cyfathrebu'r data personol sy'n cael ei brosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael ynghylch ei darddiad.

- 1 *Sylwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu set o weithrediadau a berfformir ar ddata personol megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adfer.*

Mae'n bosibl y bydd angen Prawf adnabod ac unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen i ddod o hyd i'r wybodaeth cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid gwneud unrhyw gais am yr wybodaeth uchod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

#### Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data yn anghywir oherwydd ei fod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor ei chwblhau os ydych chi'n gofyn i'r Cyngor wneud hynny.

Dylid gwneud cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Diogelu Data a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

#### Dileu neu gyfyngu data personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu'ch data neu gyfyngu ar unrhyw brosesu o'ch data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid gwneud pob cais i'r Swyddog Diogelu Data. Yna bydd y Cyngor yn eich hysbysu a yw'r cais wedi'i ganiatáu ac, os gwrthodwyd y cais, y rhesymau dros ei wrthod.



## Bridgend County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

### Yr hawl i beidio â bod yn destun gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych yr hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio â bod yn destun penderfyniad pan fydd yn seiliedig ar brosesu awtomataidd ac mae'n cael effaith gyfreithiol neu effaith arwyddocaol debyg arnoch. Mae gennych yr hawl i fynegi'ch safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor am ei benderfyniad, a'i herio.

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon ynghylch y ffordd y mae BCBC yn trin eu data personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y Cyngor fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Y Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

[E-bost foi@bridgend.gov.uk](mailto:E-bost_foi@bridgend.gov.uk)

Ffôn 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru 2il Lawr

Churchill House

Churchill Way

Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399

[E-bost: wales@ico.org.uk](mailto:E-bost:wales@ico.org.uk)

Gwefan: <https://ico.org.uk/>